

## Dathlu daucanmlwyddiant Soar-y-mynydd


Diau y bu i nifer ohonom fanteisio ar leoliad yr Eisteddfod yn Nhregaron i ymweld â chapel bach Soar-y-mynydd. Bydd nifer o'n darllenwyr, mae'n siŵr, yn parhau i ymweld â'r adeilad eiconig yn ystod yr haf. Ond tybed beth yw hanes y capel bach diarffordd hwn? Braf yw medru adrodd ychydig o hanes yr achos wrth iddo ddathlu ei ddaucanmlwyddiant eleni. Cynhaliwyd oedfa i ddathlu'r achlysur ddydd Sul, 26 Mehefin, a chyflwynwyd Hanes yr Achos yno gan y Parch. Stephen Morgan. Yn dilyn, gwelwn grynodedd o'r hyn a draddodwyd ynghyd â sylwadau pellach gan Eirwen James, Llanio.

### Plannu a goroesi

Yn ystod ei oes fe fu i'r Parchedig John Evans (1830–1917), gweinidog Abermeurig (o 1860 hyd ei farwolaeth), ymchwilio'n fanwl i holl eglwysi Methodistaidd Sir Aberteifi o'u dechreuadau hyd 1902. Dyna pryd y cyhoeddwyd cyfrol ei ymchwil a chofnodi'r hanes gwerthfawr yn llawn gwybodaeth am gapeli'r enwad. Bu'n ddiwyd yn ymchwilio ac yn ysgrifennu yn Bron Aeron, Abermeurig, wrth olau canhwylau, neu, o bosibl, lamp olew ar y bwrdd. Cyhoeddodd hefyd dair cyfrol yn rhestru bugeiliaid a phregethwyr Methodistaidd Sir Aberteifi o gyfnod y Diwygiad Methodistaidd yn y ddeunawfed ganrif hyd y flwyddyn 1913.

Bu'r Diwygiad Methodistaidd yn ffenomen rymus, ysbrydol yma yng Nghymru. Bu Howell Harris (1716–73), Daniel Rowland (1713–90), William Williams (1717–91) ac eraill lawer yn gyngorwyr o fewn ymudiad, cyn iddo gael ei sefydlu'n enwad yn 1811, sef enwad y Methodistaidd Calfainaidd.

Bu Sasiwn sefydlu'r enwad ac ordeinio gweinidogion cyntaf gogledd Cymru yn y Bala, a Llangeitho oedd y dewis naturiol i'r Sasiwn yn ne Cymru. Ond ni fynnai pobl Llangeithoei derbyn, o barchi goffadwriaeth Daniel Rowland, a chynhaliwyd y Sasiwn yn Llandeilo. A chanlyniad sefydlu'r enwad yw'r rheswm pam yr ydym yn Soar heddiw. Mae Soar yn un o'r eglwysi o fewn yr hyn a elwir bellach yn Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro.



Taflen y gwasanaeth dathlu

Yn y flwyddyn 1873 roedd 90 o eglwysi o fewn Henaduriaeth Sir Aberteifi, a gwnaed penderfyniad bryd hynny i'w rhannu'n ddwy, sef Henaduriaeth Gogledd Aberteifi, a Henaduriaeth Deau Aberteifi. Roedd y llinell wahanu yn mynd o Dregaron, dros Flaenpennal a Blaenafon, dros Benrhiw, Joppa a Llanrhystud i'r môr. Perthynai 42 o eglwysi i'r gogledd, ac roedd 48 yn y deau. Cofnoda John Evans yn y flwyddyn 1902 fod dros bedair mil o aelodau o fewn y 48 eglwys, a rhifwyd dros bum mil o 'wrandawyr'.

Yn 2022 dim ond 24 o eglwysi sydd gan yr enwad ar ôl yn Ne Ceredigion, a'r aelodaeth oddeutu pedwar cant. Ac y mae Soar-y-mynydd yn un ohonynt. Saif ar hen lwybrau'r porthmyn gynt fu'n gyrru gwartheg o Dregaron heibio Llanymddyfri a chyn belled â Ffair Barnet ar gyrion Llundain. Dyma hefyd y llwybr a ddefnyddiai Howell Harris a William Williams wrth iddynt deithio tuag at gynnwrf diwygiadau Llangeitho:

Daeth y sŵn dros fryniau Dewi  
Megis fflam yn llosgi'n llin,  
Nes ddadseinio creigiau Tywi  
A hen Gapel Ystrad-ffin. W.W.

A dyma'r ffordd y teithiai Daniel Rowland ar hyd-ddi ar ei ymweliadau cyson i bregethu yn Ystrad-ffin.

Syndod imi oedd sylwi bod Soar ar y tir wedd uchel, anghysbell hwn, ymhlith teuluoedd a bugeiliaid defaid, wedi cael ei sefydlu'n eglwys yn 1822, dim ond un mlynedd ar ddeg wedi sefydlu'r enwad. Doedd dim siop groser, na chrefftwyr o fewn y cyffiniau, hyd y gwelwn. Y Parch. Ebenezer Richard (1781–1837), Tregaron, a roes symbyliad i'r gymuned fynyddig gael addoldy iddynt eu hunain. Yn y blynyddoedd a ddilynodd sefydlu'r enwad fe gafodd 22 o eglwysi eu sefydlu o fewn yr Henaduriaeth. Rhyfeddol yn wir yw fod i Soar gymaint ar y blaen mewn amser.

Yn ôl ysgrif John Evans,

Yn y flwyddyn 1812 torrodd diwygiad allan mewn cyfarfod gweddi yn Nantllwyd. Parodd am ddwy flynedd. Trwy gyffroadau fel hyn a dylanwad cyffredinol moddion gras y mae'r eglwys yn dal ei thir yn rhyfeddol – dywedir mai 40 oeddynt y pryd hwnnw; yn 1901 y mae'r aelodaeth yn rhifo 62. Nathaniel Williams, Bronhelen, a wnaed yn flaenor ac a ddechreuodd bregethu – yr oedd Nathaniel a Thomas Williams, brodyr, Bronhelen, yn flaenoriaid yn Soar. Bu John Jones, Ysw, U.H., Cilpyll, yn flaenor yma (saif fferm Cilpyll hanner ffordd rhwng Llangeitho a Bwlchllan), Rees Jones, Brynglas, mab Nantllwyd; David Davies, Ffrwd; John Jones, Tyncornel; Thomas Jones, Maes y betws ac eraill. Ond y ddau oedd yma ddiwedd y ganrif oedd Zacheus Williams, Brynambor, a J. W. Edwards, Nantstalwyn, mab yng nghyfraith Mr John Jones, Cilpyll. Rhif yr aelodau ar ddiwedd 1902 yw 58, a'r gwrandawyr yn 93. Cyfartaledd casgliad y weinidogaeth yn 12 swllt.

Y teulu a letyai'r pregethwr dros y penwythnos fyddai'n ei nôl, naill o orsaf trên Pont Llanio neu Dregaron. Fel arfer, byddai'r gŵr yn marchogaeth i gyrchu'r pregethwr a phoni bach yn cydgerdded ag efi'r orsafer mwyn i'r cennad ei farchogaeth

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

## Dathlu daucanmlwyddiant Soar-y-mynydd

(parhad o dudalen 1)

i'w lety penwythnos. Cynhelid oedfaon yn Soar yn y bore, ac yn y prynhawn byddent yn dod ynghyd ar aelwyd y croesawu.

Ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd daeth y Comisiwn Coedwigo i archwilio'r mynydd-dir, ac erbyn 1947 roedd y Comisiwn wedi meddiannu tiroedd ffermydd y mynydd. Dyma oedd dechrau diboblogi'r gymuned hynafol a'r teuluoedd yn symud i fyw i ardaloedd megis Tregaron a Llanddewibrefi ac ymhellach ... Erbyn y flwyddyn 1973 dim ond un ar ddeg o aelodau a restrwyd: teulu Nantllwyd – Rhys, John, Glyn, Alun, Nansi, Margret Ann, Daniel a Jenkin; hefyd, Lizzie Davies, Cartref (Brynglas gynt); John Hughes Williams, Brynambor ac Albert Pen-y-bont. Felly roedd yr ysgrifen ar y mur a dyfodol yr achos yn ansicr.

Daeth cenadwri i un o eisteddiadau Henaduriaeth De Aberteifi yn 1973 i ddwyn yr achos i ben a datgorffori Soar. Ond gwnaed safiad pendant yn erbyn y bwriad i gau'r capel gan y Parchedig Eben Ebenezer, Llan-non, oedd yn frodor o Dregaron; Mr D. W. Davies, Werndriw, Llanddewibrefi; a'r Parchedig Tom Roberts, Llanddewibrefi. Cafodd y gwelliant ei gario, a phenodwyd y tri brawd yn ymddiriedolwyr Soar. Mae'r llyfr cofnodion, derbyniadau a threuliau o hyn ymlaen yn nodi pob derbyniad a thaliad yn fanwl, ac roedd D. W. Davies yn ei archwilio am sawl blwyddyn o hyn ymlaen.

Daeth ail gyfle i Soar anghysbell, ac fe ddaeth y pererinion pnawn Sul yn heidiau o bob rhan o'r wlad i ddrachtio llonyddwch i'w heneidiau. Rhoesant offrmw yn y blwch, fel eraill a droai i mewn yn achlysurol, gan grynhoi cyfanswm o rai cannoedd o bunnoedd bob blwyddyn.

Cynhaliwyd ysgol ddyddiol ar gyfnodau ar lofft y Tŷ Capel, a sonnir am Miss Jones, a hefyd am Jenkin Evans a'i wraig, Ann, a fu'n byw yn y Tŷ Capel rhwng 1940 ac 1947. Brodor o ddyffryn Aeron oedd Jenkin.

Bu Mrs Elizabeth Hughes yn gydwybodol yn llenwi'r Suliau â phregethwyr o bell ac agos. Byddem wedi dymuno iddi weld y diwrnod hanesyddol hwn. Da yw fod Lynwen Hughes wedi ymgymryd â dyletswyddau ei mam er budd y sefydliad hwn. Hefyd, Mair Richards, a fagwyd yn Nhy'n Cornel, sydd

wedi bod yn canu'r organ yn ffyddlon ers blynyddoedd.

Siom enbyd fu llofruddiaeth erchyll John Hughes Williams, Brynambor, yn y flwyddyn 1982; ef oedd y trysorydd yma. Ac mae'r gadair yn y pulpud yn ei goffâu.

Dyna fraslun o'r hyn a fu yma yn Soar, ac sy'n nodweddiadol o eglwysi cred, o bob enwad, yn y gorfennol. Beth am a ddaw?

Mae'n gyfnod hir o grebachu o fewn yr eglwysi yma yng Nghymru ond y mae neges Efengyl Crist yn aros yn ddigyfnewid, sef **DUW CARIAD YW**.

*Stephen Morgan*



Ychwanegwyd y neges ganlynol gan Eirwen James, Llanio:

Wrth i mi wyllo a gwranddo ar yr eitemau am Soar ar y cyfryngau rwy'n credu y dylid tynnu sylw at y canlynol. Yn gyntaf mai ym mhlwyf Llanddewibrefi y mae Soar-y-mynydd. Yn ail, y ddauberson fu'n allweddol yn y frwydr i'w gadw ar agor oedd y Parch. Tom Roberts, bryd hynny'n weinidog Capel Bethesda, Llanddewibrefi, a D. W. Davies, Werndriw, oedd yn flaenor a blaenor y gân yng nghapel Bethesda. Trefnodd Dai Werndriw fod yr adnod 'Duw Cariad Yw' sydd tu ôl i bulpud Llanddewibrefi hefyd yn dod yn rhan o gefnlen pulpud Soar. Teithiai ef ac Eleanor Davies i Soar bob pnawn Sul yn y tymor i gwrdd â'r organyddes Beryl Davies, Llanddewibrefi. Cofiaf Meinir yn mynd lan i lanw bwch pan oedd eu tri mab yn fach. Ysgrifennodd Beryl gerddi, emynau a myfyrdodau am Soar mewn dau lyfryn.

Un arall fu'n organyddes selog yn Soar oedd Mrs Sally Rees, London Shop, Llanddewi, ac un arall fyddai'n ffyddlon yn Soar fyddai Islwyn, Brynglas. Mae enw John Brynambor a Mrs Hughes a theulu Alltddu, Tregaron, yn rhan annatod o'r hanes. Gwylid rhag i ni anghofio teulu Nantllwyd a'r cysylltiadau yr ochr draw i'r mynydd.



Rhai o aelodau presennol Capel Soar-y-mynydd



**Eglwys Bresbyteriaidd Cymru**

## CYFARFODYDD CYHOEDDUS / RHITHIOL Y GYMANFA GYFFREDINOL

**5-7 Medi, 2022**

**Capel Salem Treganna,  
Caerdydd ac yn rhithiol**

**Nos Lun, 5 Medi**

**7:00pm**

**Gwasanaeth Cymun a Choffâd**  
I Bregethu: Parchg Gwenda Richards,  
BAdd, BD, Caernarfon

**Dydd Mawrth, 6 Medi**

**11.45am**

**Y Ddarlith Davies**

Darlithydd: Parchg Ddr Diane  
Stirling, BSc, MA,  
Y Trallwng

Testun:

'Climate Change: Hand of God or  
Hand of Man?'

**Nos Fawrth, 6 Medi**

**7:00pm**

**Oedfa dan arweiniad y Llywydd**

Y Parchg Evan Morgan, BD,  
Caerdydd

**Dydd Mercher, 7 Medi**

**11:45am**

**Darlith y Gymdeithas Hanes**

Darlithydd: Parchg Dafydd Andrew  
Jones, MA, Caerdydd

Testun:

'Diolch a llawenydd anghyffredin':  
Ysbyty Shillong 1913-1927

Yr holl gyfarfodydd i'w  
cynnal yn

ddwyieithog ac yn rhithiol  
heblaw am y ddarlith Davies  
a draddodir yn Saesneg

Am fanylion ymuno â'r cyfarfodydd  
hyn yn rhithiol cysylltwch gyda  
swyddfa EBC—

02920 627465 neu

[swyddfa.office@ebcpw.cymru](mailto:swyddfa.office@ebcpw.cymru)

# 'Trysorau Newydd a Hen'

Fy hoff emyn – 'Am Byth' (cyf. Arwel E. Jones)

Bydd gan bob un ohonom emyn – neu emynau yn wir – sy'n crisialu profiad, yn cysuro ein henaid, yn annog ffydd, neu'n ein herio i weithredu dros efengyl Iesu Grist. Y tro hwn, Joseff Griffiths, Llanuwchllyn a Choleg y Bala, sy'n ein harwain i werthfawrogi ei hoff gân o fawl.

Mae'r sêr yn wylo'n brudd  
A'r haul yn farw fud,  
Gwaredwr mawr y byd yn farw  
Yn gelain ar y groes;  
Fe waedodd er ein mwyn  
A phwys holl feiau'r byd oedd arno.

Yn ildio'i enaid Ef,  
Heb gwmni Tad o'r nef,  
Rhoed annwyl Fab ein Duw mewn t'wyllwch;  
Mewn rhyfel yn y bedd;  
Fe frwydrodd angau'i hun,  
A chwalwyd pob yn grym yn uffern.

Ysgydwodd daear lawr,  
Agorwyd drws y bedd,  
A'i gariad perffaith Ef yn ennill.  
Marwolaeth wedi mynd  
Dan law y Brenin byw – grym angau wedi colli'r dydd.

Am byth mae'n ogoneddus nawr,  
Am byth yn ddyrchafedig nawr,  
Am byth, yr Un a gododd;  
Mae Ef yn fyw,  
Mae Ef yn fyw.  
Canwn Haleliwia,  
Canwn Haleliwia,  
Canwn Haleliwia,  
Mae'r Oen yn awr yn Ben.

Am byth mae'n ogoneddus nawr,  
Am byth yn ddyrchafedig nawr,  
Am byth, yr Un a gododd;  
Mae Ef yn fyw,  
Mae Ef yn fyw. (x2)

@2013 Bethel Music (Adm Song Solutions [www.songsolutions.org](http://www.songsolutions.org))  
KAJE Songs/Worship Together Music. Cedwir pob hawl. Defnyddir drwy ganiatâd. Cyfieithiad Cymraeg awdurdodedig – Arwel E. Jones

Cliciwch y ddolen hon i glywed recordiad o'r gân yn Gymraeg: [Cân am Byth o Llanw '22 ar Facebook](#)

Joseff Griffiths ydw i ac rwy'n gweithio yng Ngholeg y Bala dros yr haf ac i ffwrdd i Nottingham i astudio ym mis Medi. Dwi'n awyddus i rannu pwt am fawl efo chi fel darllenwyr. Dwi wrth fy modd efo mawl, a'r mis yma rwy'n ffocysu ar gael mwy o amser i foli gydol y dydd. Fel i minnau, dwi'n siŵr i lawer ohonoch, er efallai ddim i bawb, fod eich profiadau dyfnaf ac agosaf o'r Ysbryd Glân wedi dod yn ystod cyfnod o fawl.

Mae yna gyfle gwefreiddiol ac mor hyfryd ar gael i bob un ohonom ni i deimlo agosatrwydd a chariad ein Tad nefol wrth ei foli, a dwi wir yn eich annog i geisio'r amseroedd yma sydd yn hwb nerthol i'n ffydd. Wrth gwrs, dydw i ddim yn teimlo fel yma yn ystod pob sesiwn o fawl. Yn aml, dwi'n cario poenau'r wythnos neu bydd fy meddwl yn bell a fydda i ddim yn teimlo dim byd gwefreiddiol neu ddylanwadol o gwbl. Ond er hyn, ac er doeddwn i ddim yn teimlo dim byd a bod canu yn gallu bod yn anodd weithiau, dwi'n dal i gredu bod cymaint o fudd mewn moli.



Dwi'n credu bod Duw yn gweithio ynom ni a thrwyddom ni, hyd yn oed pan dydyn ni ddim yn sylwi hynny, a gall Dduw ddefnyddio ein mawl mewn ffyrdd anhygoel yn nes ymlaen. Tra oeddwn i yng Nghamerŵn gyda mudiad YWAM (Youth with a Mission), fe rannodd un person efo mi nad oedd addoli byth yn wastraff amser, ac rwy'n cytuno. Mae gwneud y penderfyniad i addoli ar yr adegau pan mae hynny'n anodd (neu'n ddiflas!) yn ffordd o ryfela ysbrydol ac yn dod â goleuni i mewn i'r byd trwy roi clod i'n Duw Goruchaf. Dwi'n credu fod Duw wir yn ymhyfrydu ynoch chi am fod yn barod i'w addoli, hyd yn oed pan 'dych chi ddim yn teimlo dim byd, pan does gennyth braidd ddim egni neu ar yr adeg honno pan mai addoli yw'r peth anoddaf i'w wneud.

Un gân sydd wedi cael effaith bwerau arnaf i yw 'Am Byth', gan Bethel Music, sydd wedi'i chyfieithu gan Arwel E. Jones. Beth dwi'n ffeindio'n bwerau am y gân hon yw sut mae'n mynd â ni yn ôl at stori chwyldroadol y Pasg ac yn ein harwain ni trwy beth ddigwyddodd yno.

'Dyn ni'n dechrau drwy fyfyrto ar y groes ac Iesu, mab Duw, yr unig un perffaith, yn hongian yna'n gelain; mae'n ddechrau sobr a thrist. Ond yna cawn droad nerthol yn y gerddoriaeth a'r geiriau wrth gyhoeddi buddugoliaeth Iesu dros farwolaeth am byth! Cawn ein harwain gan eiriau'r gân at dragwyddoldeb ac at le mae Iesu nawr yn sefyll: 'Am byth mae'n ogoneddus nawr, / Am byth yn ddyrchafedig nawr'.

Dydw i ddim yn gwybod amdanoch chi ond dwi'n un sydd yn aml angen canu pethau sawl gwaith i mi wir ystyried y neges yn y geiriau, ac felly mae'r ailadrodd yn y bennill yn fy atgoffa fod Iesu yn fyw, a bod hynny yn wir am heddiw a hyd yn oed am byth. Dwi ddim yn siŵr amdanoch chi, ond dwi angen cael fy atgoffa o hyn mor aml ac felly mae canu a myfyrto ar y gwirioneddau yma fel cawod gynnes yn golchi fy ofnau a'm poenau i ffwrdd. Mae buddugoliaeth Crist, y ffaith ei fod yn fyw ac efo ni heddiw a'n bod ni am fod efo fo am dragwyddoldeb yn wir yn gosod gofynion fy niwrnod i fy hun mewn persbectif. Dyw'r 'cewri' mawr sy'n ceisio poeni fy meddwl a dwyn fy llawenydd a'm heddych ddim yn ymddangos mor fawr ac mae popeth yn haws gan fod fy mod wedi ailsefydlu fy sylw ar Iesu a thragwyddoldeb yn hytrach na'r rhwystrau sydd yn syth o'm laen i.

Felly, ar sail hyn oll, dwi wir yn eich annog i wrando ar y gân anhygoel hon eich hunain. Nid dim ond unwaith ond i wrando arni eto hefyd, achos fel y dywedais, i mi yn aml mae'n cymryd ychydig o amser i'r pethau yma ffeindio'u ffordd i mewn i'n nghalon. Felly, rwyf wir yn eich annog chi i beidio rhoi'r ffidil yn y to – mae mawl yn bwerau a byth yn wastraff amser.



## Cyhoeddi enwau'r rhai fydd yn derbyn medalau Gee yn 2022

Mae'n bleser gan Gyngor Ysgolion Sul Cymru gyhoeddi y bydd 22 o fedalau Gee yn cael eu rhannu eleni, a hynny yn ychwanegol i'r ddwy fedal er anrhydedd a gyflwynir i ddau unigolyn a wnaeth gyfraniad nodedig at waith yr ysgol Sul a gwaith plant yng Nghymru.

Bob blwyddyn derbynnir ceisiadau am fedalau, a hynny ar ran pobl sydd dros 75 oed ac yn dal i fod yn rhan o weithgarwch ysgol Sul / astudiaeth Feiblaidd yn lleol. Cofiwch fod modd i eglwysi ac ysgolion Sul yrru ffurflen gais i mewn unrhyw adeg o'r flwyddyn (mae ffurflen briodol ar gael ar wefan [www.ysgolsul.com](http://www.ysgolsul.com); noder mai 30 Mehefin yw'r dyddiad cau bob blwyddyn ar gyfer cyflwyno medalau ym mis Medi).

Mae'n bleser gennym gyhoeddi y bydd y 22 unigolyn a restrir isod yn derbyn medal eleni:

Aledwen Myra Davies, Capel Saron, Dinbych  
 Gwilym Davies, Ysgol Sul y Parc, y Bala  
 Olwen Davies, Ysgol Sul y Parc, y Bala  
 Heulwen Mai Edwards, Capel y Groes, Dinbych  
 Lloyd Edwards, Capel y Groes, Dinbych  
 Gwerfil Alwena Evans, Ysgol Sul Peniel, Llanuwchllyn  
 Nesta Elizabeth Evans, Capel Saron, Dinbych  
 Jean Elizabeth Hughes, Capel Lôn y Felin, Llangefni  
 Awel Jones, Ysgol Sul Peniel, Llanuwchllyn  
 Elfair Jane Jones, Bethel, Mynachlog-ddu  
 Gillian Jones, Capel Lôn y Felin, Llangefni  
 John Gwynfor Jones, Capel y Groes, Dinbych  
 John Trefor Jones, Ysgol Sul yr Awr Fawr, Llanuwchllyn  
 Meinir Hedd Jones, Capel y Groes, Dinbych  
 Patricia Jones-Evans, Capel Brynlllynfell, Cwmllynfell  
 Penri Jones, Ysgol Sul y Parc, y Bala  
 Wendy Jones, Ysgol Sul yr Awr Fawr, Llanuwchllyn  
 Beryl Morris, Capel Cefn Berain, Dinbych

Gwyneth Parry, Ysgol Sul yr Awr Fawr, Llanuwchllyn

Mary Annwen Thomas, Ysgol Sul yr Awr Fawr, Llanuwchllyn


Helen Mary Williams, Capel Lôn y Felin, Llangefni

Margaret Helen Williams, Capel Lôn y Felin, Llangefni

Estynnwn ein llongyfarchiadau gwresog iddynt i gyd, gan ddiolch am eu ffyddlondeb dros waith yr efengyl o fewn ein heglwysi.

Yn ogystal â chyflwyno'r medalau hyn, mae Cyngor yr Ysgolion Sul eleni hefyd yn cyflwyno dwy fedal er anrhydedd. Braint yw cyhoeddi y bydd y medalau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Parchedig Tom Defis a Mrs Isoline Greenaulgh.

Mae Tom Defis o Ffynnon-ddrain, ger Caerfyrddin, newydd ymddeol o'i waith llawn amser gyda Chymorth Cristnogol, fel trefnydd yn y de-orllewin, a dymunwn yn dda iddo ar ei ymddeoliad. Bu Tom yn aelod gweithgar a brwd o Gyngor yr Ysgolion Sul am gyfnod o dros 30 mlynedd, gan wasanaethu fel Cadeirydd yn ei dro. Bu'n gefn mawr i'r gwaith yn y de, gan gadeirio pwyllgor hybu gweithiwr y de am flynyddoedd. Pan oedd yn weinidog mewn gofalaeth gyda'r Annibynwyr, roedd bob amser yn frwd dros yr ysgol Sul, gan gefnogi pob menter bosib. Bu'n braf cydweithio â Tom yn y gwyliau cenedlaethol, a diolchwn am ei frwdfrydedd heintus gyda phob math o weithgarwch Cristnogol – yn ddigwyddiadau chwaraeon, gwrsylloedd a chwisiau, lle roedd ei gymorth yn amhrisiadwy.



Y Parch Tom Defis

Cyflwynir hefyd fedal er anrhydedd i Mrs Isoline Greenaulgh – y person cyntaf y gwyddom amdani i dderbyn dwy fedal Gee. Pan oedd Isoline yn 75 oed, derbyniodd fedal Gee am ei ffyddlondeb hithau i'w hysgol Sul leol yn Rowen, Dyffryn Conwy. Aeth dros 15 mlynedd heibio ers hynny, a hithau bellach wedi croesi'r 90, penderfyniad y Cyngor oedd cyflwyno medal er anrhydedd iddi hithau – a hynny i gydnabod ei chyfraniad fel un o'r olaf o deulu'r diweddar Thomas a Susannah Gee sy'n weithredol o ran y gwaith o gyflwyno medalau'n flynyddol. Dros y blynyddoedd mae Isoline wedi cyflwyno cannoedd o fedalau i selogion yr ysgol Sul. Hithau hefyd, dros gyfnod maith, sydd wedi bod yn ariannu'r medalau arbennig hyn, gan wneud hynny fel aelod balch o deulu Gee, y mae'r medalau'n cael eu cyflwyno yn eu henw.



Mrs Isoline Greenaulgh

Bu'n rhaid cynhyrchu dogn newydd o fedalau ar gyfer 2022 – digon am y 10–15 mlynedd nesaf, ac mae hynny wedi golygu cyfraniad sylweddol unwaith eto gan Isoline at y gwaith. Dymuniad y Cyngor yw anrhydeddu a gwerthfawrogi'r rhodd honno drwy gyflwyno medal er anrhydedd i Isoline eleni. Diolchwn iddi hi, sy'n or-orwyrtes i'r teulu Gee gwreiddiol, a hefyd i Dorothy Gee Williams o Vancouver, Canada, sydd wedi dod drosodd fwy nag unwaith i gefnogi gwaith Isoline.

Cyflwynir y medalau yn y gogledd ddydd Sadwrn, 10 Medi, a hynny yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn, am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb ymuno – a bydd caredigion y capel yn darparu paned o de i bawb fydd yn bresennol. Gwneir trefniadau i gyflwyno medalau'r de yn lleol yn ystod yr hydref.

Llongyfarchiadau felly i'r 24 a fydd yn cael eu hanrhydeddu eleni.

Aled Davies  
 Cyfarwyddwr Cyngor Ysgolion Sul Cymru

# O'r Llwyfan

## Chwilio am yr hyn sy'n calonogi

Hyfrydwch oedd cynnal y gynhadledd flynyddol ym mis Mehefin a chael chroesawu dwy adran Undeb Bedyddwyr Cymru i gydgyfarfod yng Nghaerfyrddin dros gyfnod o ddau ddiwrnod. Estynnwn ein dymuniadau gorau i'r Llywydd Newydd, sef y Parchedig Ddr Densil Morgan, gan ddiolch iddo nid yn unig am ei anerchiad arbennig yn y gynhadledd ond am y neges a draddodwyd ganddo o lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn yr oedfa fore Sul. Ie, braf oedd gweld baneri'r Eisteddfod yn chwifio yn Nhregaron wedi dwy flynedd o ddisgwyl, a'r eglwysi'n cael eu cynrychioli ar faes y brifwyl ym mhabel Cytûn. Bu'r cyfan oll yn destun diolch ac yn ffynhonnell i'n calonogi. Yn ddi-os, mae angen pob anogaeth bosib arnom wrth inni edrych ymlaen at dymor newydd o weithgarwch ym mis Medi.

Yn ystod cyfweiliad gydag un o'n gweinidogion newydd yn ddiweddar, dywedodd y cyfaill ei fod bob amser yn agor cwrdd eglwys gyda'r cwestiwn canlynol: 'Beth sydd wedi'n calonogi fel cynulleidfa ers y cyfarfod diwethaf?' Mae'n gwestiwn da ac yn un sy'n ein gorfodi i ystyried y pethau pwysig a chadarnhaol sydd ar waith yn ein heglwysi. Efallai'n wir y caem ein synnu gan weithgarwch yr Ysbryd Glân yn ein plith a'r hyn a gyflawnir gennym yn enw'r Arglwydd Iesu.

O safbwynt personol, rhaid cyfaddef mai rhai o'r gorchwylion mwyaf pleserus a chalonogol a ddaw i'm rhan yw bod yn bresennol mewn cyfarfodydd ordeinio a sefydlu; dwyn cyfarchion i eglwysi sydd yn dathlu cerrig milltir arbennig a chyf-weld darpar ymgeiswyr ar gyfer y weinidogaeth, ynghyd â'r rhai hynny sydd wedi cwblhau eu hyfforddiant. Nifer cymharol fychan o ymgeiswyr sydd gennym, mae'n wir, ond mae'r nifer hwnnw'n ddigon i'n hatgoffa bod Duw yn parhau i neilltuo pobl i arwain ei eglwys, hyd yn oed mewn cyfnod seciwlar ac ysbrydol sych.

Yn naturiol, mae pob ymgeisydd yn wahanol ac erbyn heddiw nid ydynt o reidrwydd yn dymuno dilyn y llwybr traddodiadol i'r weinidogaeth. Bydd rhai eisoes yn gwasanaethu fel arweinyddion



Llun gan Terren Hurst ar Unsplash

mewn eglwysi lleol ac yn dymuno gwasanaethu'r gynulleidfa yn yr eglwysi hynny tra maent dan hyfforddiant, gydag eraill yn teimlo'r alwad i ymneilltuo i swyddogaethau penodol fel caplaniaid neu weithwyr plant a phobl ifainc. Cawn brofiad hefyd o rai sydd eisoes yn y weinidogaeth yn gwneud cais i gymhwyso fel gweinidogion cydnabyddedig ac sydd am ymrwymo i gyflawni astudiaethau pellach.

Ond, yn ogystal ag wynebu'r her o brinder ymgeiswyr, rhaid ceisio sicrhau bod y strwythurau i gymeradwyo darpar weinidogion yn ddigon hyblyg i fedru ymateb i geisiadau gwahanol tra'n diogelu cynnwys a safon yr hyfforddiant. Yn ddiweddar cawsom gais gan weinidog oedd ar fin cwblhau cwrs coleg ac a ddymunai ymsefydlu mewn tref heb fod yn gysylltiedig ag unrhyw eglwys yn benodol. Byddai hyn wedi caniatáu i'r gweinidog dreulio amser yn byw fel aelod o'r gymuned leol tra'n ceisio dirnad ewyllys Duw mewn perthynas â phatrwm o weinidogaeth briodol. Mewn achosion o'r fath mae'n hollbwysig ein bod yn trafod yn ofalus gyda'r unigolyn beth yn union yw natur yr alwad er mwyn darparu cefnogaeth addas. Yn dilyn sawl cyfarfod ac wedi dwys ystyried gweddigar bu ymateb y Gymanfa berthnasol a'r Undeb fel ei gilydd yn gynnes ac yn gadarnhaol i'r cais arbennig hwn.

Ydi, mae'r drefn yn newid a mynegiannau newydd o'r weinidogaeth Gristnogol yn datblygu. Byddwn effro ac agored i ymateb i geisiadau gwahanol gan bobl sy'n ymdeimlo â galwad Duw i wasanaethu mewn ffyrdd amgen ac annisgwyl. O wneud hynny, mae'n siŵr y caem ein calonogi yn y gwaith o adeiladu Eglwys Dduw gan ymddiried y dyfodol i'w ddwylo diogel Ef.

*Judith Morris*



### Eglwys Bresbyteraidd Cymru COLEG Y BALA

Mae Coleg y Bala yn chwilio am berson i weithio fel Dirprwy Warden ac i fod yn aelod o dîm Coleg y Bala, gan weithio a goruchwyllo'r cyrsiau a gynhelir yn y Ganolfan, cynorthwyo'r Rheolwr gyda gofal ymwelwyr preswyl, a dyddiol, ac ehangu darpariaeth y Coleg yn y gymuned gyfagos.

**Oriau:** 35 awr yr wythnos

**Term:** 2 flynedd, gyda'r chwe mis cyntaf yn gyfnod prawf

**Cylog:** Pwynt 24–28 o raddfa EBC (£24,844–£26,982) neu uwch, yn dibynnu ar sgiliau neu brofiad, ynghyd â llety di-rent

Mae'r swydd yn amodol ar wiriad DBS boddhaol a dau eirda (dylai cyn-gyflogwr ddarparu un).

Mae gan y swydd hon ofyniad galwedigaethol i ddeiliad y swydd fod yn Gristion ymroddedig ac yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.

Dyddiad cau: 4pm, 31 Awst 2022

Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch â Sian Edwards: [sian.edwards@ebcpcw.cymru](mailto:sian.edwards@ebcpcw.cymru) gan nodi "Dirprwy Warden"

# Undeb Bedyddwyr Cymru – Araith y Llywydd, D. Densil Morgan 24 Mehefin 2022

## ‘Y rhwymau sy’n ein clymu ni ynghyd’

Anrhydedd annisgwyl oedd cael f'enwebu ar gyfer llywyddiaeth Undeb Bedyddwyr Cymru mewn blwyddyn pan fo'r ddwy adain yn cynnal eu cynhadledd ar y cyd. Yn anaml iawn iawn y mae hyn yn digwydd, a chan fy mod yn weddol anhysbys yn yr eglwys di-Gymraeg, rwy'n rhyfeddu braidd at eu mentergarwch ac yn gwerthfawrogi'r ffydd y mae'r ddwy adran wedi ei rhoi ynof. Gwnaf fy ngorau i beidio â siomi'r naill adran na'r llall.

Hanner canrif yn ôl, yn 1972, y cefais fy nerbyn yn ymgeisydd am y weinidogaeth gan Gymanfa Gorllewin Morgannwg, a minnau bryd hynny yn y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Pen-lan, Abertawe. Alla i ddim honni bod pethau'r ffydd yn eglur i mi bryd hynny, ond roeddwn wedi cael fy magu'n Gristnogol a'm proffes, rwy'n credu, yn un ddiffuant. Os nad y cam dechreuol oedd hwnnw – y cam dechreuol oedd cael fy nwyn i'r capel ac i'r ysgol Sul yn blentyn – roeddy bedydd, dair blynedd ynghynt, yn gam allweddol ar y daith. Fedra i ddim llai na mynegi fy nyled i fy mam eglwys 'nôl yn chwedegau a saithdegau'r ganrif ddiwethaf. Roedd fy hen dad-cu, Daniel Jones y teiliwr, yn un o sylfaenwyr Calfaria yn 1888 ac yn arweinydd cyntaf y gân. Dyma'r graig y'm naddwyd ohoni, a dyma'r etifeddiaeth sydd wedi bod yn gynhysgaeth i mi byth oddi ar hynny.

Fedra i ddim peidio â chrybwyll ychwaith y camau eraill ar y daith. Hyfforddi yn y Coleg Gwyn ym Mangor o dan gyfarwyddyd y Prifathro D. Eirwyn Morgan a'r Athro George John, a phrofi o felyster cyfeillgarwch cyd-fyfyrrwyr sydd wedi para hyd heddiw. Tair blynedd wedyn yng Ngholeg Regent's Park, Rhydychen, yn gwneud gwaith ymchwil ar Fedyddwyr Cymru'r ddeunawfed ganrif, a'm cadarnhau yn yr uchel sagrafennaeth Fedyddiedig yr oedd Eirwyn Morgan – yntau'n gynnyrch Coleg Regent's Park – eisoes wedi ei chyflwyno i ni ym Mangor. Yna chwe blynedd hynod gyfoethog ar y Mynydd Mawr, sir Gâr, yn weinidog ar Galfaria, Pen-y-groes; Tabor, Cross-hands a Phenrhiw-goch, cyn symud i'r gogledd yn 1988 i ddysgu Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Bangor.

Rwyf am ddiolch i eglwys Moreia, y Gaerwen, a Phencarneddi, y ddwy ym Môn, am fy ngalw'n weinidog rhan-amser rhwng 1989 ac 1994, ac yna i'r Coleg Gwyn am fy mhenodi yn 1996 yn warden (a minnau'n parhau i ddysgu yn y brifysgol) ac yn olynydd i'r pennaeth, fy nghyfaill y Parchg John Rice Rowlands. Rhaid crybwyll yn ogystal y gymdeithas ardderchog ym Mheniel, Bangor: ei gweinidog, fy hen gyfaill Olaf Davies, a'r eglwys gyfan, lle roeddwn yn aelod rhwng 1995 a 2011, ac Ann, fy ngwraig, yn ddiacôn ac yn ysgrifennydd yno. Ac, wrth gwrs, rhaid cyfeirio at Noddfa, Llanbedr Pont Steffan, a'i gweinidog, y Parchg Jill Tomos, lle'r ymaelododd Ann a finnau wedi i mi symud 'nôl i'r de i fod yn Athro Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant. Ac yna, i gloi, i Gylch Eglwys Gogledd Teifi: Noddfa, Llamedd; Bethel, Silian, a Chaersalem, Parc-y-rhos; Aberduar; Seion, Cwrtnewydd, a Brynhafod, am fy ngalw bedair blynedd yn ôl i'w bugeilio yn yr Arglwydd.

Beth yw'r rhwymau sy'n ein clymu ni, aelodau Undeb Bedyddwyr Cymru, ynghyd? Wrth baratoi ar gyfer yr anerchiad hwn, dyna'r cwestiwn sydd wedi bod yn cyniawir yn fy meddwl, ac er mwyn cynnig ateb, rwyf am dynnu'ch sylw at y 'Datganiad o Egwyddor' sy'n sylfaen i'n gweithgareddau fel Undeb. Petaech yn troi at y wefan, a phwyso ar y geiriau 'Yr hyn a gredwn', byddech yn dod o hyd i'r tri chymal hyn:

1. Ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist, Duw a amlygwyd yn y cnawd, yw'n hunig awdurdod llwyr a hollol ym mhob mater sy'n ymwneud â ffydd ac ymarfer, fel y'i mynegwyd yn yr Ysgrhythrau Sanctaidd, ac mae gan bob eglwys ryddid i ddehongli ac i weinyddu ei gyfreithiau dan arweiniad yr Ysbryd Glân.
2. Bedydd Cristnogol yw'r weithred o drochi mewn dŵr y sawl sydd wedi datgan edifeirwch ger bron Duw a ffydd yn ein Harglwydd Iesu Grist a fu farw dros ein pechodau yn ôl yr Ysgrhythrau, a gladdwyd ac a atgyfodwyd y trydydd dydd.

3. Dyletswydd pob disgybl yw tystio'n bersonol i efengyl Iesu Grist ac i gymryd rhan mewn efengyleiddio'r byd.

### 1. Y cefndir hanesyddol

Sefydlwyd Undeb Bedyddwyr Cymru yn Llanwenarth, nid nepell o'r Fenni, yn 1866, ac ymhen y flwyddyn mabwysiadwyd y cyfansoddiad cyntaf a oedd yn cydnabod sofraniaeth pob eglwys unigol a'i hawl 'i osod mewn grym holl ddeddfau Crist er ei hadaeladaeth hi ei hun'. Ymhlith dibenion yr Undeb yr oedd 'diogelu cariad ac unoliaeth rhwng gweinidogion ac eglwys Bedyddwyr sy'n proffesu eu hunain yn Galffinaidd neu efengylaidd', sef yw, trwch eglwys i'r enwad ar y pryd. Nid pob eglwys na phob cymanfa a fynnodd ymuno, ond, fesul tipyn, ymunodd pob un o'r cymanfaoedd â'r Undeb, gyda'r eglwys cyfrwng Saesneg yn y canolbarth a chymoedd y dwyrain, yn ffurfio'r Adran ddi-Gymraeg yn 1913.

Oshoffech wybod mwy am y cefndir, trowch at bennod gyfoethog y diweddar Gareth O. Watts yn y gyfrol *Y Fywiol Ffrwd* (1999) neu bennod olau'r Parchg Michael Collis yn y gyfrol *Unity of Spirit and Bond of Peace: A Summary of the History of the Baptist Union of Wales* (2016). Ond nid tan 1977, er mwyn cadarnhau sylfaen cyfansoddiadol yr Undeb, y mabwysiadwyd y 'Datganiad o Egwyddor' yn ôl y geiriad a oedd wedi ei arfer gan Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr ac Iwerddon ers 1938. O ran ein Hundeb ni felly, roedd hi mor ddiweddar â 1977 pan ddaeth y tri chymal uchod yn rhan ymwybodol o'n tystiolaeth, a'r cwestiwn yw: beth wnawn ni ohonynt? Ai digonol y rhain fel rhwymau i'n clymu ynghyd?

Petaech yn cymharu'r Datganiad â Chredo'r Apostolion, er enghraifft, y mwyaf cyffredin o symbolau catholig yr eglwys ar hyd y canrifoedd, fe welwch fod ynddo fylchau mawr. A phetaech yn ei gymharu â Chyffes Ffydd 1689, byddech yn cael eich temptio i ddweud ei fod yn denau ryfeddol. Felly, ai digonol hwn fel y rhwymyn sy'n ein clymu ni ynghyd? Yr hyn yr hoffwn ei amgrymu am weddill yr arait hon yw nid yn unig *ei fod* yn ddigonol ond ei fod yn cyfuno eglurder, rhyddid a phwrpas i'r graddau sy'n gweddu i'r dasg y mae'r Arglwydd Iesu wedi ein galw iddi yng nghyd-destun y Gymru gynyddol seicwlaraidd hon.

*(Bydd ail ran y crynodeb hwn o'r arait hon ymddangos yn rhifyn yr wythnos nesaf)*





# O Gefn Gwlad



Kremlin.ru, CC BY 4.0, via Wikimedia Commons

Rhai o arweinwyr gwledydd mwyaf pwerus Ewrop yn dilyn cyfarfod i geisio datrys yr anghydfod rhwng Rwsia ac Wcráin yn 2019

## Rhad faddeuant – gwawria bellach

Onid ydi llinell Williams Pantycelyn yn gamarweiniol – a maddeuant yn bopeth ond rhad? Gwn, mi wn pam ei fod o'n dweud hyn, ond tynnwch y llinell allan o'i chyd-destun ac mae'n swinio'n chwithig iawn. Gosodwch hi yng nghyd-destun arweinwyr a gwledydd byd, ac mae'n swinio'n amhosib.

Dwi'n dweud hyn am mod i eisiau pwysleisio rhywbeth arall, sef mai unig obaith y ddynoliaeth o weld heddwch yn ein byd, yn yr Ewrop bresennol yn sicr, yw fod yn rhaid maddau i Putin a'r wladwriaeth Rwsiaidd am eu hymosodiadau erchyll ar Wcráin.

Maddau i Putin! Wn i sut ydech chi'n teimlo. Finne hefyd, wrth feddwl amdano, ac yn dychmygu petawn i'n ei gyfarfod yn y cnawd y byddwn yn barod i'w lindagu, i wasgu pob owns o fywyd allan o'r bwystfil tase gen i'r nerth. Maddau i hwn, o bawb?

Wel, dewch yn ôl at ddiwedd y ddau Ryfel Byd a ddigwyddodd o fewn un ganrif. Y cynta i ddechrau. Ar ei ddiwedd fe ffurfiwyd Cynghrair y Cenhedloedd (League of Nations) i roi trefn ar bethe, ac fe fynnodd y gynghrair honno, nid maddau i'r Almaen, ond ei chosbi'n wleidyddol, ac yn arbennig

yn economaidd am achosi'r gyflafan. Ei darostwng i'w gliniau. A be' wnaeth hynny? Creu yr union sefyllfa a'r amodau y gallai Natsiaeth dan arweiniad Hitler ffynnu ynddi. Ac fe wnaeth. Gellir dadlau mai Cynghrair y Cenhedloedd a'i hawydd i ddial yn hytrach na maddau oedd prif achos yr Ail Ryfel Byd.

Ond be' ddigwyddodd ar ddiwedd hwnnw? Do, fel gosbwyd yr arweinwyr Natsiaidd drwy'r llys yn Nuremberg, ac roedd hynny i'w ddisgwyl ac yn gyfiawn. Ond adfer yr Almaen fel gwladwriaeth oedd y penderfyniad: codi'r wlad ar ei thraed drachefn, gan wario miliynau o bunnoedd, y rhan fwyaf o'r arian yn dod o'r Amerig. Y canlyniad oedd cyfnod sylweddol o heddwch, ar y cyfan beth bynnag, yn Ewrop. (Crëwyd y Farchnad Gyffredin hefyd, y bu dinasyddion Prydain yn ddigon ffôl i bleidleisio i'w gadael yn ddiweddar, gan roi arwydd clir i Putin a'i griw nad oedd raid iddo ofni Ewrop unedig. Ond stori arall yw honno.) Yn ôl at wersi hanes. Dialedd wedi'r rhyfel cynta yn creu rhyfel arall; maddeuant wedi'r ail yn creu heddwch – dyna hanes dwy gyflafan fwyar byd.

A dyna wers hanes yn sicr, y wers i wleidyddion ar sut i ymdrin â'r rhyfel yn Wcráin. Gwn, mi wn fod yna ddigon o reswm dros ddial, dros ymateb yn gwbl filwrol, ond mae'n ffaith mai o gwmpas y bwrdd y bydd y datrys yn y diwedd,

nid ar faes y gad. A beth fydd yr ysbryd fydd yn cyniwa'r ac yn hofran o gyloch y bwrdd hwnnw, tybed? Talu'r pris, neu faddau? Pwysig cofio fod arweinwyr a chenhedloedd a ddarostyngwyd yn beryglus. Fel yr anifail rheibus a glwyfwyd.

Ai gan Gristnogaeth y mae'r ateb yn y diwedd? Onid yw problem gwladwriaeth yr un â phroblem unigolion? A maddau i wlad am ymosod yr un peth yn y diwedd â'r rhieni yn maddau i lofrudd am ladd eu plentyn? Oes, mae rhai wedi gwneud hynny.

Ydi, mae'r ateb yn hawdd yn y diwedd: 'rhaf faddeuant' yn hytrach na chosbi, yn hytrach na dialedd, i wladwriaethau'r byd fel i unigolion sydd wedi ddiodes. Hawdd, dd'weddes i? *'I must be joking!'*

*Elfyn Pritchard*

**BBC** | radio cymru

### **Caniadaeth y Cysegr**

**Sul, 28 Awst, am 7:30yb a 4:30yp**

Huw Foulkes yn trafod sut mae rhai o'n corau'n cyfrannu tuag at ein traddodiad emynyddol

**Sul, 28 Awst, am 12:00yp**

Oedfa yng ngofal Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn, ar drothwy Cymanfa Cyngor Eglwysy'r Byd yn Karlsruhe, yr Almaen

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Herio gwerthoedd

Emyn 363: 'Cydduned nef a llawr'

**Darlleniad:** Salm 112 neu gellir canu *Salmau Can Newydd* <https://www.bible.com/cy/bible/1364/PSA.112.SCN>

### Gwedd

Arglwydd ein Duw, galwn arnat mewn byd lle mae balchder ac anonestrwydd, twyll ac ymfrost, anghyfiawnder a dirmyg fel pe baent yn llwyr ennill y dydd. Ond, Arglwydd, ym munudau mwyaf syber ein heneidiau, gwyddom fod yr union bethau yr ydym mor barod i'w condemnio mewn eraill i'w gweld ynom ninnau hefyd. Maddau i ni ein rhagrith, ein hunan-dwyll a'n tybiaeth fod enw, statws neu wisg yn golygu rhagoriaeth cymeriad. Arglwydd Dduw, fe weli di heddiw yr hyn ydym mewn gwirionedd. Maddau i ni. Arglwydd, llefara wrthym. Er mwyn Iesu Grist y gofynnwn hyn. Amen.

**Darlleniad:** Diarhebion 25:4-7

### Rhagdybiaeth

Rhagdybiaeth ffôl ein hoes yw'r gred boblogaidd fod rhywbeth sy'n 'hen' o angenrheidrwydd yn 'henffasiwn', felly'n 'amherthnasol', ac oherwydd hynny, yn wir, yn 'ddiwerth'.

Nid yw pob doethineb, fodd bynnag, i'w fesur mewn gigabeit. Ac y mae yna 'wybodaeth' ddyfnach, mwy arhosol, mwy gwaelodol na'r ffasiwn dechnolegol ddiweddaraf.

### Doethineb

Yn y Diarhebion crynhoir cymaint o ddoethineb syml ond ymarferol. Sonia'r adnodau a ddarllenwyd am symud amhuredd, gweithred sy'n hanfodol er mwyn creu llestr gwerthfawr ac er mwyn cymdeithas sefydlog. Disgrifia hefyd ffolineb balchder y rhai sydd am eu dyrchafu eu hunain.

Ac fel y cawn weld yn ein darlleniad nesaf, dyma'r union werthoedd sy'n cael eu datblygu yn nysgeidiaeth Iesu ei hun. Dysgeidiaeth dramgwyddus ydoedd i'w wrandawyr yn ei ddydd. Dysgeidiaeth dramgwyddus ydyw i ninnau heddiw.

Yn ein darlleniad nesaf, felly, gwelwn fod Iesu yn ymestyn dysgeidiaeth y Diarhebion, gan herio'i wrandawyr i ystyried beth yw gwir ystyr 'statws'. Yn ogystal â hyn, mae'n herio ein gwerthoedd, sydd am fesur ein bywydau wrth amserlen calendr a dyddiadur ein horiau. Dylai ei bersbectif tragwyddol newid ein gwerthoedd daearol.

**Darlleniad:** Luc 14: 1, 7-14

Ar yr olwg gyntaf, sgwrs ddiniwed am 'statws' mewn digwyddiad cyhoeddus a gawn yn yr adnodau hyn. Ond, o graffu'n fanylach, gwelwn fod Iesu'n cynnig ffordd

amgen, a ffordd wahanol o feddwl am fywyd: 'Oherwydd darostyngir pob un sy'n ei ddyrchafu ei hun, a dyrchefir pob un sy'n ei ddarostwng ei hun.' (adn. 11)

### Clochdar

Meddyliwch am foment am y ddadl ynghylch pwy sydd i olynu Mr Johnson fel arweinydd y blaidd Geidwadol. A allwch chi ddychmygu Liz Truss neu Rishi Sunak yn peidio â chwythu ffanffer eu doniau a'u rhinweddau wrth iddynt geisio dringo'r ysgol wleidyddol yn San Steffan? A'r uchaf y byddant yn clochdar heddiw, mwya'n y byd y bydd gwawd gan wrthwynebwyr neu sylwebwyr a cholofnwyr fory, pan fydd lleisiau'r ceiliogod balch yn cael eu mudo gan eu hanallu i oresgyn yr heriau a ddaw yn anorod i'w tewi.

### Balchder

Gwelwn ar un waith fod dysgeidiaeth Iesu yn groes i bob greddf, yn gwbl groes i werthoedd cymdeithas a diwylliant balch pob oes, ac yn herio'r balchder hunandybus sydd ynom oll.

Balchder sydd wrth wraidd pob hunanoldeb. O wreiddyn balchder fe dyfyr awydd hwnnw i fyw yn annibynnol ar Dduw, ei ras a'i faddeuant. O wreiddyn balchder y blodeua'r awydd i ddyrchafu ein hunain uwchlaw, ac ar draul, pobl eraill. Ac o wreiddyn ein balchder aeddfeda ffrwythau chwerw eu blas: 'Y mae gweithredoedd y cnawd yn amlwg, sef puteindra, amhurdeb, anlladrwydd, eilunaddoliaeth, dewiniaeth, cweryla, cynnen, eiddigedd, llidid, ymgiprys, rhwygo, ymbleidid, cenfigennu, meddwi, cyfeddach, a phethau tebyg.' (Galatiaid 5:19-21)

Ond nid gan falchder, hunan-dyb neu ymfrost gwag y mae'r gair olaf: 'Oherwydd darostyngir pob un sy'n ei ddyrchafu ei hun, a dyrchefir pob un sy'n ei ddarostwng ei hun.' (Gweler hefyd Luc 1: 50-53)

Dyma werthoedd sy'n gwbl dramgwyddus i ni.

### Gostyngeddrwydd yn adfer

Yn ganolog i'r efengyl a gyhoeddwyd ym mhob cwr o'r byd nid adferwyd hiliogaeth falch gan rym, na thrwy drais, na thrwy ormes. Cawsom ein hennill, ein prynu, ein hadfer trwy weithred fwrriadol a phenodol Duw gostyngedig. Daeth yn ei Fab Iesu Grist gan ddiosg ei goron, i fod yn ufudd hyd angau'r groes (Philipiad 2:5-11). Gorchfygodd angau ei hun drwy lyncu angau mewn buddugoliaeth. Y Crist a groeshoeliwyd yw Arglwydd pob peth.

### Gostyngeddrwydd yn ein hadferiad

Nid dim ond yn ymgnawdoliad Iesu y datguddir y gostyngeddrwydd dwyfol.

Trwy ymostyngiad parhaus yr Ysbryd Glân i drigo oddi mewn i lestr brau ein calonnau, y mae gras gostyngedig yn parhau i ddenu ac ennill ein serch i'w garu. Datgelir gwaith dirgel yr Ysbryd pan fydd calonnau balch yn ymostwng mewn ffydd, i'r 'person dwyfol hwn'. Gosodir greddf, anian, dyhead newydd am ei ogoniant ef i fod yn uchaf ac yn flaenaf yn ein calonnau, ac yn ein byd.

Nid mewn urddas strwythurau eglwysig y gorffwys dyfodol tystiolaeth yr efengyl yng Nghymru ond mewn cynulleidfaoedd o bobl sydd wedi darganfod grym a nerth a choncwest rhodio'n ddistadl ym mhresenoldeb yr Arglwydd. Oherwydd 'darostyngir pob un sy'n ei ddyrchafu ei hun, a dyrchefir pob un sy'n ei ddarostwng ei hun'.

### Adar o'r unlliw ehedant i'r unlle

Her Iesu i ni sy'n proffesu ei ddilyn yw'r her i roi mynegiant i'r gostyngeddrwydd newydd hwn yn ein hymwneud â'n gilydd ac â phobl eraill nad ydynt o angenrheidrwydd yn 'perthyn' fel arfer i'n cylchoedd arferol ni.

Meddyliwn am foment am yr olew cymdeithasol sy'n hyrwyddo perthynas pobl sydd yn ein cylchoedd ni â'i gilydd.

Tybed nad ydyw'n wir dweud bod derbyniad, statws neu ddylanwad cymdeithasol mewn bywyd yn dibynnu ar adnabod, hyrwyddo neu ddatblygu perthynas gyda'r bobl hynny sydd eisoes yn 'ddylanwadol'. Ac os nad yw'ch 'wyneb yn ffio', mae'n anodd torri i mewn i'r cylchoedd y dymunwn fynediad iddynt.

Ond, awgrym Iesu yw ein bod yn gosod egwyddor wahanol i'n llwyddiant bydol presennol fel sail ein gwerthoedd. Beth ddigwyddai pe cymerwn o ddifri ei ddisgeidiaeth fod bywyd 'gwynfydedig' yn awr yn dibynnu ar wahod ac ar gynnwys pobl anghenus yn ein cymdeithas? A beth fyddai'r effaith ymarferol ar ein cynulleidfaoedd pe byddem yn cymryd o ddifri ei addewid y 'cei dy dalu'n ôl yn atgyfodiad y cyfiawn'?

I'r rhan fwyaf ohonom, mae'r ddyled honno'n ymddangos yn rhy ansicr ac yn amser rhy hir i ni ddisgwyl cyn iddi gael ei had-dalu. Ond bydd ad-daliad gan yr Arglwydd yn fwy hael ac yn fwy parhaol nag unrhyw ad-daliad daearol.

### Gwedd

Arglwydd Iesu, rhyddha ni o hualau rhagdybiaethau caethiwus ein balchder fel y medrwn fod yn rhydd, mewn gostyngeddrwydd, i'th wasanaethu di ac ymestyn y tu hwnt i ffiniau ein cwmni arferol i greu cymdeithas ymysg dy bobl. Amen.

Emyn 839: 'Arglwydd Iesu, llanw d'Eglwys'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | [f](#) CennadCymru | [t](#) @CennadCymru